



## Adroddiad Arolygu ar gyfer

**Garreglwyd**

**Ffordd Garreglwyd  
Caergybi  
LL65 1NS**

**Mae'r adroddiad hwn hefyd ar gael yn Saesneg**

**This report is also available in English**

**Dyddiad Cyhoeddi**

**Dydd Mawrth, 14 Awst 2018**

**Llywodraeth Cymru © Hawlfraint y Goron 2018.**

*Cewch ddefnyddio ac aildefnyddio'r wybodaeth sydd yn y cyhoeddiad hwn (ac eithrio logos) yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, o dan delerau Trwydded Agored y Llywodraeth. Gellir gweld Trwydded Agored y Llywodraeth ar wefan yr Archifau Gwladol, neu gellwch ysgrifennu at The Information Policy Team, The National Archives, Kew, London, TW9 4DU, neu anfon e-bost at: [psi@nationalarchives.gsi.gov.uk](mailto:psi@nationalarchives.gsi.gov.uk).*

*Rhaid ichi atgynhyrchu ein deunydd yn fanwl gywir, a pheidio â'i ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol.*

## Disgrifiad o'r gwasanaeth

Mae Garreglwyd wedi ei leoli yng Nghaergybi ac yn darparu gofal personol a llety i 28 o bobl hŷn na 45 oed sy'n cynnwys 15 o bobl a allai fod ag anghenion gofal yn ymwneud â dementia. Roedd 13 o bobl yn byw yn y cartref ar ddiwrnod yr arolygiad. Mae Cyngor Ynys Môn wedi ei gofrestru fel y darparwr ac enwebwyd unigolyn cyfrifol ar gyfer y sefydliad. Rona Humphreys yw'r rheolwr cofrestredig.

## Crynodeb o'n canfyddiadau

### 1. Asesiad cyffredinol

Mae'r bobl sy'n byw yn y cartref yn hapus gyda'r gofal y maent yn ei dderbyn ac yn cael eu hannog i fod yn annibynnol. Mae ganddynt fynediad at weithgareddau amrywiol ac maent wedi datblygu cyfeillgarwch gyda'i gilydd. Mae'r tîm staff wedi ymrwmo i sicrhau bod pobl yn derbyn gofal yn y ffordd y maent yn dymuno ei dderbyn ac maent yn deall yr hyn sydd orau gan bobl. Mae'r tîm rheoli yn ymroddedig o ran sicrhau bod pobl sy'n byw yn y cartref yn hapus, bod ganddynt fynediad at wasanaethau proffesiynol ac maent yn darparu cymorth rheolaidd i'r aelodau staff. Mae amgylchedd y cartref wedi elwa o gael ei ailaddurno ac mae newidiadau pellach yn cael eu cynllunio.

### 2. Gwelliannau

Nododd yr arolygiad blaenorol a gynhaliwyd ar 20 Mawrth 2017 y meysydd canlynol i'w gwella:

- Mae'n rhaid i'r staff lofnodi cofnodion meddyginiaeth bob amser i brofi eu bod wedi rhoi meddyginiaeth. Mae'n rhaid iddynt lofnodi i gofnodi a yw'r person wedi gwrthod y feddyginiaeth hefyd. Gwelsom yn ystod yr arolygiad hwn bod gwelliannau cyfyngedig wedi cael eu gwneud. Nid oedd y cofnodion rhoi meddyginiaeth (MAR) yn dangos yn gyson bod y staff wedi rhoi meddyginiaeth neu pan roedd pobl wedi gwrthod cymryd eu meddyginiaeth. Gwelsom hefyd nad oedd llofnodion dwbl yr aelodau staff wedi eu cofnodi'n gyson mewn cofnodion rhoi meddyginiaeth pan roeddent yn nodi meddyginiaeth â llaw.
- Dylai'r rheolwr cofrestredig gynnal archwiliad o'r cwmpadau sydd wedi digwydd yn y gwasanaeth. Ni welsom fod unrhyw welliannau wedi cael eu gwneud yn ystod yr arolygiad hwn gan nad oedd archwiliad cwmpadau wedi cael ei greu eto.
- Dylid cysylltu cypyrddau dillad yn ddiogel i'r waliau fel y cynghorir yng nghanllawiau'r Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch. Gwelsom yn ystod yr arolygiad hwn fod gwelliannau wedi cael eu gwneud gan fod pob cwpwrdd dillad wedi cael ei lynu at y wal.
- Dylid rhoi gorchuddion dros reiddiaduron. Gwelsom yn ystod yr arolygiad hwn fod gwelliannau cyfyngedig wedi cael eu gwneud. Roedd y rheiddiaduron wedi cael eu gorchuddio yn yr uned gofal dementia uwch ond nid yn ardal breswyl y cartref.
- Gellid ysgrifennu cynlluniau gofal ar wahân i gofnodi'r cymorth gofal sydd ei angen o ran cyflyrau croen penodol. Gwelsom yn ystod yr arolygiad hwn bod gwelliannau wedi cael eu gwneud gan fod ffeiliau pobl yn cynnwys cynlluniau gofal a oedd yn benodol i'w cyflyrau croen.

### **3. Gofynion ac argymhellion**

Mae adran pump yr adroddiad hwn yn nodi ein gofynion a'n hargymhellion i wella'r gwasanaeth. Mae'r argymhellion yn cynnwys y canlynol:

- Mae angen adolygu cynlluniau gofal ac asesiadau risg yn gyson.
- Creu archwiliad cwympiadau.
- Gwella'r drefn cofnodi gwybodaeth mewn cofnodion rhoi meddyginiaeth (MAR).
- Gorchuddio rheiddiaduron yn ardal breswyl y cartref.
- Cynnal lefelau staffio cyson bob amser.
- Cwblhau adroddiad ansawdd gofal.

# 1. Llesiant

## Crynodeb

Mae gan bobl sy'n byw yn y cartref fynediad at amrywiaeth o weithgareddau sy'n annog ysgogiad a llesiant iechyd meddyliol a chorfforol. Maent yn derbyn deiet iachus ac amrywiol ac mae gwahanol ddewisiadau o brydau bwyd ar gael. Mae pobl yn gwybod pwy i gysylltu â nhw os oes ganddynt unrhyw bryderon ac maent yn derbyn gwasanaeth dwyieithog.

## Ein canfyddiadau

Mae pobl sy'n byw yn y cartref yn cymryd rhan mewn gweithgareddau ac yn cael cyfleoedd i gymdeithasu yn eu cymuned. Roedd hysbysfwrdd cynllunydd gwybodaeth gweithgareddau yn y brif lolfa yn dangos y gweithgareddau a oedd wedi eu trefnu ar gyfer y mis nesaf. Roedd y cynllunydd yn lliwgar ac yn gwbl hygyrch i bobl. Roedd y gweithgareddau a gynigiwyd yn amrywiol ac yn cynnwys cwisiau, bingo, pobi, ymarfer corff cadair freichiau, peintio, te prynhawn, hel atgofion, sesiynau canu, gemau diarhebion a sesiynau maldod. Gwelsom bedwar o bobl yn yr ardal breswyl yn chwarae gem gof gyda lluniau yn ystod yr arolygiad ac fe'u gwelwyd yn gwenu ac yn clapio gyda chaneuon hefyd. Dywedasant wrthym eu bod yn mwynhau cymryd rhan mewn gweithgareddau gan ddweud "*maen nhw'n cadw ni'n brysur*" ac "*mae'n ein cadw ni'n ifanc*". Dywedasant wrthym hefyd eu bod yn mwynhau ymweliadau gan ddiddanwyr, ffrindiau a theulu ac yn mwynhau teithiau allan i fannau o ddiddordeb fel caffi lleol a chanolfan gloynnod byw. Gwelsom un person yn yr uned gofal dementia uwch yn mwynhau sba traed a gwelsom aelodau staff yn gofyn iddynt a hoffent gymryd rhan mewn gweithgareddau. Dywedodd pump o bobl sy'n byw yn y cartref wrthym fod ganddynt fynediad at weithgareddau rheolaidd a'u bod yn cymryd rhan ynddynt. Dywedodd aelodau staff a oedd yn gweithio yn y cartref wrthym fod disgwyliad iddynt annog pobl i gymryd rhan mewn gweithgareddau yn feunyddiol. Dywedasant wrthym hefyd eu bod yn mwynhau gweld pobl yn cael eu diddanu, yn egniol ac yn cael eu difyrru ac yn teimlo bod hyn yn "*bwysig iddyn nhw*". Hefyd, dywedodd gweithiwr gofal iechyd proffesiynol a oedd yn ymweld wrthym nad oedd diwrnodau pobl yn cael "*eu harwain gan drefn arferol*" a bod y tîm staff yn "*gweithio'n galed*" i sicrhau nad oedd yr uned gofal dementia uwch "*yn amgylchedd ward*". Mae pobl sy'n byw yn y cartref yn gwneud pethau sy'n bwysig iddynt ac yn cael cyfleoedd i gymryd rhan mewn gweithgareddau amrywiol.

Mae pobl sy'n byw yn y cartref yn elwa o ddeiet iachus. Edrychwyd ar y fwydlen dair wythnos barhaus a gwelsom ei bod yn cynnig dewisiadau iachus o brydau bwyd. Roedd y prydau yn cael eu paratoi'n ffres a gwelsom fod archwiliadau stociau bwyd ac iechyd a diogelwch o'r gegyn wedi cael eu cwblhau a'u cofnodi. Cawsom sgwrs gydag aelod o staff y gegyn a ddywedodd wrthym ei fod yn deall dymuniadau a gofynion deietegol pobl. Dywedasant wrthym fod y fwydlen wedi cael ei llunio i gyd-fynd â dymuniadau pobl ond bod prydau bwyd amgen yn cael eu paratoi os nad oeddent eisiau'r hyn a oedd yn cael ei gynnig. Cadarnhaodd pedwar o bobl y gallent gael gwahanol brydau a dywedodd un person wrthym "*mae 'na ddewisiadau yma*". Dywedodd pawb y gwnaethom siarad â nhw yn ystod yr arolygiad faint yr oeddent yn mwynhau'r bwyd gan ddweud bod y prydau yn "*ardderchog*" ac yn "*hyfryd*". Dywedodd yr aelodau staff wrthym hefyd nad oedd ganddynt unrhyw bryderon am ansawdd y prydau a oedd yn cael eu darparu. Mae gan bobl sy'n byw yn y

cartref fynediad at fwydlen amrywiol a cheir dealltwriaeth o'u dymuniadau personol a'u hanghenion deietegol.

Mae pobl sy'n byw yn y cartref yn gallu mynegi eu safbwyntiau a'u barn. Dywedodd pedwar o bobl i ni siarad â nhw eu bod yn hapus i siarad gydag aelod o'r staff neu gyda'r tîm rheoli os oeddent yn anhapus neu oes oedd ganddynt unrhyw bryderon. Dywedasant wrthym eu bod yn cymryd rhan mewn cyfarfodydd trigolion a dywedasant fod eu safbwyntiau a'u barn yn cael eu parchu ac y gwrandawyd arnynt. Edrychwyd ar gofnodion y ddau gyfarfod preswylwyr diwethaf a gadarnhaodd hyn a gwelsom hefyd fod symudiadau ac awgrymiadau pobl wedi cael eu cofnodi ac y cymerwyd camau ar eu sail. Dywedodd un person wrthym fod y rheolwr cofrestredig "*yn newid pethau os maen nhw'n gallu*". Roedd pob aelod o staff i ni siarad ag ef yn deall y broses chwythu'r chwiban. Dywedasant wrthym na fyddent yn "*oedi o gwbl*" nac yn "*poeni o gwbl*" o ran hysbysu aelod o'r tîm rheoli pe baent yn dyst i unrhyw bryderon. Fe'n hysbyswyd gan aelod o'r tîm rheoli nad oedd y gwasanaeth wedi derbyn unrhyw gwynion ers yr arolygiad blaenorol. Roedd gweithdrefn a pholisi cwynion y gwasanaeth yn gynhwysfawr ac yn cynnig gwybodaeth i bobl am sut i wneud cwyn. Gall pobl sy'n byw yn y cartref fynegi eu pryderon ac mae ganddynt fynediad at wasanaethau eiriolaeth annibynnol.

Mae pobl sy'n byw yn y cartref yn derbyn gwasanaeth dwyieithog. Dywedodd y tîm rheoli wrthym y gallai dros hanner y tîm staff sgwrsio trwy gyfrwng y Gymraeg a deall yr iaith ac roedd pob un yn siarad ac yn deall Saesneg. Roedd rotas staff yn dangos bod gan bobl sy'n byw yn y cartref fynediad at aelod o staff sy'n siarad Cymraeg yn rhugl neu aelod o staff sy'n deall Cymraeg ar bob shift. Clywsom pobl a oedd yn byw yn y cartref ac aelodau staff yn sgwrsio â'i gilydd yn y Gymraeg a'r Saesneg yn ystod yr arolygiad. Dywedodd tri o bobl a oedd yn byw yn y cartref wrthym eu bod yn siarad Cymraeg yn feunyddiol gydag aelod o staff. Dywedodd dau o bobl eu bod yn credu bod hyn yn "*bwysig*" iddyn nhw gan mai dyma oedd yn well ganddynt. Gall pobl sy'n byw yn y cartref ddewis derbyn gwasanaeth yn yr iaith o'u dewis.

## 2. Gofal a Chymorth

### Crynodeb

Mae pobl sy'n byw yn y cartref yn cael eu trin gyda pharch a charedigrwydd. Caiff eu hanghenion gofal eu diwallu gan dîm staff ymrwymedig ac ymroddgar sy'n deall eu dymuniadau personol. Mae'r aelodau staff yn annog annibyniaeth pobl ac mae gan bobl fynediad at wasanaethau proffesiynol. Mae angen gwelliannau o ran sicrhau bod dogfennau yn ymwneud â gofal pobl yn cael eu hadolygu a'u harchwilio'n gyson.

### Ein canfyddiadau

Caiff pobl sy'n byw yn y cartref eu hannog i fod yn annibynnol a'u trin gyda pharch mewn amgylchedd gofalgar. Gwelsom yr aelodau staff yn cynnwys pobl sy'n byw yn y cartref mewn sgysiau yn ystod ein harolygiad, ac yn siarad â nhw gyda charedigrwydd a pharch. Gwelsom ofal yn cael ei ddarparu mewn ffordd ddigynnwrf, addfwyn ac ystyriol. Roedd yr aelodau staff yn gweithio mewn ffordd ragweithiol ac yn dangos amynedd, empathi a dealltwriaeth os oedd pobl yn ofidus. Gwelsom aelodau staff yn tynnu coes ar lafar gyda phobl a oedd yn byw yn y cartref, a oedd yn cael ei wneud mewn ffordd ddiffuant a chynhwysol. Dywedodd y bobl i ni siarad â nhw wrthym eu bod yn hapus gyda'r gofal yr oeddent yn ei dderbyn. Dywedodd pump o bobl bod y gofal yn "*rhagorol*", fe'i disgrifiwyd gan un person fel "*y gorau sydd yna*" a dywedodd un arall ei fod yn "*ardderchog*". Dywedodd dau o weithwyr gofal iechyd proffesiynol a oedd yn ymweld bod y gofal yr oedd pobl yn ei dderbyn yn "*gwbl berffaith*", yn "*anhygoel*" a dywedasant fod ganddynt "*ddim pryderon*". Gwelsom fod sylw wedi cael ei roi i ymddangosiad personol pawb gan eu bod wedi eu gwisgo mewn dillad glân ac roedd eu gwallt wedi cael ei steilio a'i frwsio. Dywedodd pedwar o bobl wrthym eu bod yn hoffi gweld y triniwr gwallt sy'n ymweld yn wythnosol. Dywedasant wrthym eu bod yn mwynhau bod mor annibynnol â phosibl ac nad oedd eu gofal yn frysiog gan fod y tîm staff yn parchu eu dymuniadau. Gwelsom fod pedwar o bobl a oedd yn byw yn y cartref wedi datblygu cyfeillgarwch ac fe'u gwelwyd yn cymdeithasu â'i gilydd drwy'r dydd. Dywedasant wrthym eu bod yn mwynhau cwmni ei gilydd a'u bod wedi adnabod ei gilydd ers "*amser maith*". Dywedasant hefyd eu bod wedi adnabod aelodau o'r tîm staff ers cryn amser a dywedasant wrthym eu bod yn gwerthfawrogi eu safbwyntiau a'u cyngor. Mae pobl yn teimlo eu bod yn perthyn ac wedi datblygu perthynas gadarnhaol gyda'i gilydd a chyda'r tîm staff.

Mae'r bobl sy'n byw yn y cartref yn derbyn gofal sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn ac mae cynlluniau gofal yn cynnwys gwybodaeth am eu hanghenion gofal a'u dymuniadau. Edrychwyd ar ffeiliau gofal tri o bobl a gwelsom fod pob un ohonynt yn cynnwys cynllun gofal a oedd yn benodol i'w hanghenion. Roedd y cynlluniau gofal yn canolbwyntio ar ddiwallu eu hanghenion iechyd a gofal cymdeithasol yn ogystal â'u dymuniadau personol a'u dewisiadau o ran ffordd o fyw. Roedd y wybodaeth wedi ei hysgrifennu mewn ffordd a oedd yn eu gwneud yn hawdd i'w darllen a'u deall. Dywedodd pedwar o bobl a oedd yn byw yn y cartref wrthym eu bod yn ymwybodol o'u cynlluniau gofal a'u cynnwys. Dywedasant wrthym hefyd eu bod yn cofio trafod eu cynlluniau gydag aelod o staff. Gwelsom anghysondebau yn y llinellau amser ar gyfer adolygu cynlluniau gofal ac asesiadau risg yn nwy o'r tair ffeil ofal i ni edrych arnynt. Roedd y dogfennau yn ymwneud â phobl yn byw yn y man preswyl. Trafodwyd hyn gyda'r tîm rheoli a wnaeth gydnabod yr anghysondebau gan ddweud y byddent yn adolygu ffeiliau pobl cyn gynted â phosibl. Ni welsom fod yr

anghysondebau wedi cael effaith negyddol ar y gofal yr oedd pobl yn ei dderbyn ar ddiwrnod yr arolygiad. Gwelsom aelodau staff yn darparu gofal i bobl mewn ffordd a oedd yn cyd-fynd â'r wybodaeth a ddarparwyd yn eu ffeiliau. Dywedodd pobl sy'n byw yn y cartref wrthym fod y tîm staff yn deall eu dymuniadau o ran sut yr oeddent yn hoffi i'w gofal gael ei ddarparu. Gwelsom un enghraifft lle nad oedd cynllun gofal unigolyn yn cynnwys gwybodaeth am angen iechyd a oedd yn bodoli ymlaen llaw. Trafodwyd hyn gyda'r rheolwr cofrestredig a ymatebodd yn rhagweithiol trwy ddiwygio'r dogfennau fel oedd yn ofynnol. Derbyniwyd tystiolaeth ysgrifenedig o hyn gan Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC) o fewn dau ddiwrnod gwaith o'n hymweliad. Ystyriwyd bod sicrhau bod cynlluniau gofal ac asesiadau risg yn cael eu hadolygu'n brydlon yn feysydd i'w gwella. Argymhellodd yr arolygiad blaenorol y dylid cwblhau cynlluniau gofal ar wahân i gofnodi'r gofal a'r cymorth a oedd yn ofynnol o ran trin cyflyrau croen penodol. Gwelsom fod gwelliannau wedi cael eu gwneud gan fod asesiadau gofal croen wedi cael eu cwblhau yn y ffeiliau i ni edrych arnynt. Argymhellodd yr arolygiad blaenorol hefyd y dylid cynnal archwiliad cwmpadau hefyd, ond ni welsom fod unrhyw welliannau wedi cael eu gwneud. Gwelsom fod y gwasanaeth yn cofnodi cwmpadau pobl ac yn cwblhau asesiad risg o gwmpadau cydnabyddedig yn ôl y gofyn. Roeddent hefyd yn hysbysu AGC am unrhyw ddigwyddiadau cwmpadau difrifol. Trafodwyd manteision cwblhau archwiliad cwmpau gyda'r rheolwr cofrestredig a wnaeth gydnabod hyn gan weld bod y wybodaeth ar gael iddo gael ei gwblhau. Ystyriwyd bod cwblhau archwiliad cwmpadau yn faes i'w wella gan y byddai'n cofnodi amllder a dadansoddiad o gwmpadau pobl. Mae pobl sy'n byw yn y cartref yn derbyn y gofal iawn ar yr adeg iawn ac yn y ffordd y maent yn dymuno ei dderbyn ar y cyfan, ond mae angen adolygu cynlluniau gofal ac asesiadau risg yn gyson ac mae angen cynnal archwiliad cwmpadau.

Mae pobl yn derbyn gofal prydlon gan fod atgyfeiriadau yn cael eu gwneud at wasanaethau proffesiynol mewn ffordd gyson. Roedd y ffeiliau gofal a welwyd gennym ni yn cofnodi amllder a math y cyswllt yr oedd pobl yn ei dderbyn gan wasanaethau proffesiynol. Gwelsom fod pobl yn manteisio ar amrywiaeth o wasanaethau proffesiynol penodol i'w hanghenion a bod atgyfeiriadau Trefniadau Diogelu rhag Colli Rhyddid wedi cael eu gwneud. Cawsom sgysiau gyda dau o weithwyr gofal iechyd proffesiynol a oedd yn ymweld a ddywedodd wrthym eu bod yn gweithio'n agos gyda'r gwasanaeth a bod eu gwasanaeth yn ymweld â'r cartref yn feunyddiol. Dywedasant wrthym fod hyn wedi cael ei gytuno trwy brosiect ar y cyd rhwng yr adran gwasanaethau cymdeithasol a'r bwrdd iechyd. Dywedasant fod y prosiect "*yn gweithio yn dda*" a nodwyd ganddynt fod y gwaith tîm rhwng gwasanaethau yn "*ardderchog*". Dywedasant wrthym fod gwasanaethau yn cyd-drafod yn dda ac yn rhannu gwybodaeth pryd bynnag yr oedd anghenion pobl yn newid. Dywedodd y rheolwr cofrestredig wrthym hefyd bod panel amlasiantaeth yn cyfarfod bob pythefnos yn rhan o'r prosiect i drafod derbyniadau newydd posibl ac i adolygu'r gwasanaeth sy'n cael ei ddarparu. Dywedasant wrthym fod y cyfarfodydd yn eu galluogi i ddarganfod gwybodaeth ychwanegol am anghenion unigol pobl a oedd yn hysbysu eu proses asesu. Roedd cofnodion yn y tair ffeil i ni edrych arnynt yn dangos bod atgyfeiriadau prydlon yn cael eu gwneud i wasanaethau pryd bynnag y bo anghenion iechyd personol neu gymdeithasol pobl yn newid. Roeddent hefyd yn dangos bod anghenion gofal iechyd penodol pobl wedi cael eu monitro gan y tîm staff. Dywedodd gweithiwr gofal iechyd proffesiynol a oedd yn ymweld bod yr aelodau staff yn "*dda iawn*" am adnabod unrhyw newidiadau i iechyd ac ymddygiad pobl a'u hysbysu amdanynt. Dywedodd y tîm staff wrthym hefyd bod cyswllt rheolaidd gyda gwasanaethau proffesiynol yn eu cynorthwyo gyda'u swydd gan ei fod yn cynnig cyngor ac argymhellion arbenigol a phrydlon iddynt. Caiff anghenion iechyd unigol



pobl eu deall a'u rhagweld gan fod ganddynt fynediad at gyngor, gofal a chymorth gweithwyr proffesiynol.

Nid yw pobl bob amser yn elwa ar wasanaeth lle mae'r weithred o roi meddyginiaeth yn cael ei chofnodi ar sail gyson. Argymhellodd yr arolygiad blaenorol bod yn rhaid i'r staff lofnodi cofnodion rhoi meddyginiaeth (MAR) bob amser i ddangos eu bod wedi rhoi meddyginiaeth. Amlygodd hefyd bod yn rhaid iddynt lofnodi'r cofnod hefyd os oedd pobl wedi gwrthod y feddyginiaeth a phan roeddent yn darparu eli. Amlygodd argymhelliad arall y dylid llofnodi presgripsiynau a ysgrifennwyd â llaw ac y dylent gael eu cyd-lofnodi gan y staff i sicrhau eu bod yn gywir. Gwelsom achosion tebyg yn ystod yr arolygiad. Edrychwyd ar MAR pawb a gwelsom ar y cyfan eu bod yn cynnwys llofnod aelod o staff pan roedd wedi rhoi meddyginiaeth. Gwelsom achosion lle nad oedd llofnodion i'w gweld ac un achos lle nad oedd y staff wedi cofnodi pan roedd unigolyn wedi gwrthod cymryd ei feddyginiaeth. Roedd methu â chofnodi llofnodion yn ei gwneud yn anodd dangos a oedd pobl wedi derbyn eu meddyginiaeth heb gyflawni cyfrif stoc. Gwelsom achosion hefyd lle nad oedd llofnodion dwbl wedi'u cofnodi'n gyson mewn MAR pan roedd staff yn cofnodi meddyginiaeth â llaw. Ni welsom unrhyw dystiolaeth lle'r oedd unrhyw un o'r materion hyn wedi cael effaith sylweddol ar lesiant pobl mewn ffordd negyddol. Trafodwyd pwysigrwydd y staff yn cofnodi'r weithred o roi meddyginiaeth yn gywir gyda'r tîm rheoli gan yr ystyriwyd hwn yn faes i'w wella. Mae angen mwy o wylidwriaeth wrth gwblhau taflenni MAR.

### 3. Yr Amgylchedd

#### Crynodeb

Mae pobl sy'n byw yn y cartref wedi elwa o newidiadau cadarnhaol sylweddol yn cael eu gwneud i'r manau y tu mewn a'r tu allan i'r amgylchedd. Maent yn gallu cael mynediad at fannau preifat a chymunedol ac mae'r cartref yn lân ac yn helaeth. Ceir cynlluniau parhaus i wella ac ehangu amgylchedd y cartref ymhellach.

#### Ein canfyddiadau

Mae pobl yn byw mewn amgylchedd glân, cyfforddus a diogel sy'n annog eu hannibyniaeth ac yn diwallu eu hanghenion unigol. Cawsom ein cyfarch gan aelod o staff ar ôl cyrraedd a gwiriodd ein manylion adnabod a gofyn i ni lofnodi'r llyfr ymwelwyr yn unol â gweithdrefnau diogelwch tân. Gwelsom fod digon o le mewnol ac allanol yn yr amgylchedd ffisegol i ddiwallu anghenion pobl. Gwnaed newidiadau sylweddol i'r tu mewn i'r cartref ers yr arolygiad diwethaf. Roedd uned dementia uwch saith gwely newydd wedi agor ac yn darparu llety i chwech o bobl ar ddiwrnod yr arolygiad. Roedd saith o bobl a oedd yn byw yn rhan breswyl y cartref gynt wedi symud i wahanol fan a oedd wedi cael ei ailaddurno a'i ailwampio gyda lloriau a dodrefn newydd. Roedd rhagor o newidiadau wedi'u cynllunio i'r cartref. Gwelsom fod uned gofal dementia uwch ychwanegol wedi cael ei datblygu ac roedd wrthi'n cael ei dodrefnu gydag eitemau newydd. Roedd cynlluniau wedi'u cymeradwyo hefyd i ailaddurno ac ailwampio'r ardal breswyl o'r cartref sy'n weddill.

Roedd pobl sy'n byw yn ardal breswyl y cartref wedi symud ystafelloedd gwely i wahanol ran o'r adeilad. Gwelsom eu bod yn elwa ar lolfa helaeth lle'r oedd lloriau newydd, digonedd o seddi cyfforddus a digonedd o olau naturiol. Cawsom sgysiau gyda phedwar o bobl a oedd yn byw yn y man preswyl a dywedasant wrthym eu bod yn "*hapus*" gyda'u hystafelloedd a chyda'r newidiadau a wnaed. Dywedasant wrthym eu bod yn hoffi'r lloriau newydd a'u bod wedi'u cynnwys yn y broses o ddewis addurn a lliwiau eu hystafelloedd. Edrychwyd ar ystafelloedd gwely chwech o bobl a gwelsom fod eiddo personol ynddynt, fel pethau cofiadwy, gwaith celf a chreffft a ffotograffau o anwyliaid. Dywedodd pedwar o bobl a oedd yn byw yn yr ardal breswyl wrthym fod ganddynt le i groesawu ymwelwyr yn breifat yn eu hystafelloedd eu hunain. Dywedasant wrthym hefyd eu bod yn parhau i ddefnyddio eu lolfa flaenorol ac yn mwynhau ei defnyddio fel ystafell fwyta gan ei bod yn "*gysurus*". Edrychwyd ar ystafelloedd gwely pedwar o bobl, y brif lolfa a'r gegin yn yr uned gofal dementia uwch. Gwelsom fod y manau'n lân, yn helaeth ac wedi eu cynnal a'u cadw'n dda. Roedd gan bobl fynediad at eitemau ystyriol o ddementia fel dodrefn yn eu hystafelloedd gwely, gwrthrychau i'w cysuro, dillad ffansi a phethau cofiadwy hanesyddol. Dywedodd tri o bobl a oedd yn byw yn yr uned wrthym eu bod yn hapus gyda'u hystafelloedd. Dywedodd un person bod ei ystafell yn "*bersonol i mi, mae gen i fy mhethau fy hun yr wyf i'n eu hoffi*". Gwelsom eitemau a allai fod yn beryglus fel cynhyrchion glanhau a menig finyl untro wedi cael eu storio'n ddiogel ac nad oedd yn hawdd cael gafael arnynt. Gwelsom fod y dodrefn a'r offer yn lân ac yn briodol i anghenion personol pobl fel gwelyau proffilio, cadeiriau olwyn a theclynnau codi. Roedd y rhannau o'r cartref i ni eu gweld yn lân ac yn rhydd o arogleuon annymunol. Fe'n hysbyswyd gan yr aelodau staff nad oedd y cartref yn cyflogi glanhawr a'u bod yn cyflawni dyletswyddau glanhau yn ogystal â'u swydd. Roedd y tîm rheoli yn cydnabod y pwysau ychwanegol yr oedd hyn yn ei roi ar yr aelodau

staff a dywedasant wrthym eu bod yn gobeithio cyflogir gweithiwr cadw tŷ yn y dyfodol agos.

Edrychwyd ar y gegin, yr ystafell golchi dillad, y toiled a'r ystafelloedd ymolchi a gwelsom eu bod yn lân ac yn rhydd o beryglon. Archwiliwyd sampl o gofnodion iechyd a diogelwch yn ymwneud â hylendid bwyd, nwyddau trydan a thân gennym hefyd a gwelsom eu bod wedi cael eu cwblhau yn unol â'r amserlenni gofynnol. Roedd gan y cartref sgôr Hylendid Bwyd cyfredol o 5 (Da lawn) a ddyfarnwyd ym mis Mawrth 2018 gan yr Asiantaeth Safonau Bwyd, sef y sgôr uchaf sydd ar gael o ran hylendid a diogelwch bwyd. Gwelsom hefyd fod cynlluniau gadael yr adeilad mewn argyfwng personol pobl pe bai tân wedi cael eu cwblhau ac yn unigol i'w hangen.

Gwelsom na ellid cael mynediad at ystafell wydr fawr a helaeth ar ddiwrnod yr arolygiad gan ei bod yn cael ei defnyddio i storio dodrefn dan do ac awyr agored a oedd newydd gael ei brynu. Fe'n hysbyswyd gan y tîm rheoli bod cynlluniau ar waith i glirio'r ystafell er mwyn galluogi pobl i'w defnyddio eto. Edrychwyd ar yr ardal awyr agored a gwelsom ei fod yn helaeth ac wedi'i chynnal a'i chadw'n dda. Roedd gan bobl a oedd yn byw yn y cartref fynediad at yr ardal pryd bynnag yr oeddent yn dymuno a gwelsom ddau o bobl yn cerdded o gwmpas y gerddi. Roedd yr ardal awyr agored o amgylch yr uned yn ddiogel ac roedd yno welyau plannu/blodau dyrchafedig a seddi. Dywedodd y tîm rheoli wrthym am gynllunio ar gyfer y man yn y dyfodol a oedd yn cynnwys prynu sied i storio dodrefn ac offer gardd.

Nododd yr arolygiad blaenorol y dylid cysylltu cypyrddau dillad at y waliau yn ddiogel fel y cynghorir gan ganllawiau'r Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch ac y dylid gorchuddio rheiddiaduron gydag amddiffynwyr priodol. Gwelsom fod cypyrddau dillad pobl wedi'u cysylltu i'r waliau yn ddiogel ac roedd rheiddiaduron yn yr uned gofal dementia uwch wedi cael eu gorchuddio gan amddiffynwyr. Serch hyn, nid oedd rheiddiaduron yn yr ardal breswyl wedi eu gorchuddio ac roedd un rheiddiadur yn boeth o'i gyffwrdd. Fe'n hysbyswyd gan y tîm rheoli bod gorchuddio rheiddiaduron yn rhan o gynllun gwella parhaus y cartref. Fe'n hysbyswyd ganddynt fod gwaith wedi cael ei flaenoriaethu i sicrhau bod yr uned gofal dementia uwch yn cael ei chwblhau. Dywedasant hefyd y byddent yn ceisio trefnu i orchuddio'r rheiddiaduron cyn i waith datblygu pellach gychwyn i sicrhau bod y risg bosibl i bobl gael eu niweidio cyn lleied â phosibl. Ystyriwyd bod sicrhau bod rheiddiaduron yn yr ardal breswyl wedi eu gorchuddio yn faes i'w wella. Er bod angen mân welliannau i'r amgylchedd, mae pobl yn byw mewn cartref sy'n derbyn buddsoddiad ariannol, yn diwallu eu hanghenion ac yn eu cynorthwyo i sicrhau eu bod mor annibynnol â phosibl.

## 4. Arweinyddiaeth a Rheolaeth

### Crynodeb

Arweinir y gwasanaeth yn dda gan dîm rheoli ymroddgar sy'n sicrhau bod yr aelodau staff yn derbyn cymorth, goruchwyliaeth a hyfforddiant rheolaidd a chyson. Cysylltir yn rheolaidd â gwasanaethau proffesiynol amlasiantaeth ac uwch reolwyr i ddarparu cymorth ac atebolrwydd. Mae angen gwneud gwelliannau i gynyddu lefelau staffio ac i gwblhau adroddiad ansawdd bywyd.

### Ein canfyddiadau

Mae pobl yn elwa ar wasanaeth sy'n defnyddio dulliau recriwtio cadarn ac yn cynnig cyfleoedd hyfforddi i'r aelodau staff. Edrychwyd ar ffeiliau tri aelod o staff ac edrychwyd ar y cofnod hyfforddiant staff. Gwelsom fod y gwasanaeth wedi cwblhau archwiliadau recriwtio a datgelu uwch cyn cyflogi'r staff yn y cartref. Yn rhan o'u cyfnod ymsefydlu, roedd aelodau staff a oedd newydd gael eu cyflogi yn cwblhau fframwaith ymsefydlu a gydnabyddir yn genedlaethol ac yn cwblhau shifftiau cysgodi gydag aelodau mwy profiadol o'r tîm staff. Dywedodd aelodau staff a oedd newydd gael eu cyflogi wrthym eu bod yn teimlo bod y broses ymsefydlu yn eu paratoi ar gyfer eu swydd a'u bod o'r farn ei fod yn brofiad "*cadarnhaol*". Roedd y cofnod hyfforddiant staff yn dangos bod yr aelodau staff yn manteisio ar amrywiaeth o hyfforddiant a oedd yn cynorthwyo yn eu swyddi wrth iddynt ganolbwyntio ar anghenion penodol pobl. Dywedodd pob aelod o staff wrthym ei fod yn derbyn hyfforddiant rheolaidd a chanmolwyd ansawdd ei gynnwys ganddynt. Dywedasant wrthym fod y rheolwr cofrestredig yn eu hannog i fynd i sesiynau hyfforddi ac i gwblhau cymhwyster gofal a gydnabyddir yn genedlaethol. Amlygodd trafodaethau gyda'r rheolwr cofrestredig eu bod yn hoffi gweld aelodau staff yn derbyn hyfforddiant gan ei bod yn gallu gweld y manteision yr oedd yn eu cynnig i'r gwasanaeth ac i'r staff ar lefel bersonol. Gwelsom hyn wedi ei gofnodi yn ffeiliau goruchwyllo tri aelod o staff hefyd. Mae pobl sy'n byw yn y cartref yn elwa o ofal a chymorth a hysbysir gan arfer gorau.

Mae'r aelodau staff yn derbyn lefelau prydlon a chyson o oruchwyliaeth a gwerthuso. Edrychwyd ar gofnodion goruchwyllo a gwerthuso'r staff. Roeddent yn dangos bod yr aelodau staff yn derbyn goruchwyliaeth ar sail gyson bob dau fis a gwerthusiad blynyddol. Edrychwyd ar enghreifftiau ysgrifenedig o oruchwyliaeth staff hefyd a gwelsom fod y rheolwr cofrestredig yn canolbwyntio ar eu llesiant, eu datblygiad personol a'u dyletswyddau gweithredol. Roedd y cofnodion ysgrifenedig yn nodi cryfderau'r staff a meysydd lle'r oeddent angen cymorth ychwanegol. Gallem hefyd weld sut yr oedd y rheolwr cofrestredig yn cynllunio'r cymorth a'i roi ar waith. Canmolwyd tîm rheoli'r cartref gan bob aelod o staff i ni siarad ag ef a chanmolwyd y cymorth yr oeddent yn ei dderbyn ganddynt hefyd. Dywedasant fod y rheolwr cofrestredig a'r dirprwy reolwr yn "*hawdd mynd atynt*", yn "*hyfryd*", yn "*dda i weithio â nhw*", yn "*hawdd i siarad â nhw*", yn "*onest*" ac yn "*wych*". Cadarnhaodd pob aelod o staff ei fod yn derbyn cymorth pryd bynnag y mae'n dymuno ac yn cael cyswllt rheolaidd â thîm rheoli'r cartref. Dywedasant hefyd eu bod yn hapus i fynd at y tîm rheoli gyda phryderon "*ar unrhyw adeg*" a dywedasant yr ymdriniwyd â phroblemau yn "*gyflym*". Mae pobl sy'n byw yn y cartref yn elwa o wasanaeth lle mae'r rheolwr cofrestredig a'r tîm rheoli yn amlwg, yn hawdd mynd atynt ac wedi ymrwymo i sicrhau bod y tîm staff yn cael eu harwain a'u cynorthwyo'n dda.

Ar y cyfan, mae gan y staff niferoedd staff digonol ar ddyletswydd er y gall y lefelau fod yn anghyson. Yn ystod ein hymweliad arolygu cyntaf, roedd y rota yn dangos bod pedwar aelod o staff i fod ar ddyletswydd ond dim ond tri oedd yn bresennol gan fod un yn sâl. Neilltuwyd un aelod o staff i'r uned gofal dementia uwch ac un arall i'r ardal breswyl. Roedd un arall yn gweithio fel aelod o staff 'hyblyg' a oedd yn cynorthwyo rhwng y ddau fan. Roedd y rota staffio yn nodi bod angen lefelau staffio o rhwng pedwar a pum aelod o staff ar ddyletswydd yn ystod y dydd. Roedd y rotas yn dangos nad oedd hyn yn digwydd yn gyson. Roedd y cynllun wrth gefn presennol yn golygu bod staff wrth gefn yn cynorthwyo'r gwasanaeth pan roedd angen cymorth. Roedd y rotas staff yn dangos bod staff werth gefn yn gweithio llawer o shifftiau ychwanegol i sicrhau bod lefelau staffio yn cael eu bodloni. Fe'n hysbyswyd bod dau o bobl sy'n byw yn y cartref angen cymorth dau i un wrth gynorthwyo gyda'u gofal personol. Ni welsom dystiolaeth yn ystod yr arolygiad hwn bod eu gofal nhw a gofal unrhyw un arall wedi cael ei beryglu o ganlyniad i'r ffaith fod tri aelod o staff ar ddyletswydd. Gwelsom glychau galw yn cael eu hateb yn brydlon a gofal yn cael ei ddarparu mewn ffordd ddigynnwrf ac amyneddgar. Amlygodd trafodaethau gyda'r tîm staff eu bod yn teimlo bod shifftiau yn "*waith caled*" ac yn "*anoddach*" pan fo tri aelod o staff ar ddyletswydd. Nid oedd yr un o'r aelodau staff i ni siarad â nhw yn teimlo bod safon y gofal yr oedd pobl yn ei dderbyn wedi cael ei pheryglu yn ystod cyfnodau o'r fath. Gwelsom bum aelod o staff ar ddyletswydd yn ystod ein hail ymweliad; dau ym mhob ardal a'r rheolwr cofrestredig. Trafodwyd lefelau staff gyda dau weithiwr gofal iechyd proffesiynol a oedd yn ymweld a dywedodd y ddau eu bod wedi gweld "*rhai*" ac "*ychydig*" o shifftiau pan roedd lefelau staffio yn isel. Nodwyd ganddynt fod pobl yn yr uned gofal dementia uwch angen goruchwyliaeth barhaus. Er gwaethaf hyn, dywedasant hefyd nad oeddent wedi gweld tystiolaeth ei fod wedi effeithio'n negyddol ar safon y gofal a oedd yn cael ei ddarparu. Trafodwyd lefelau staffio gyda'r rheolwr cofrestredig a rheolwr busnes y gwasanaeth. Cydnabuwyd gan y ddau fod shifftiau achlysurol wedi bod yn brin o staff a'r angen i gyflogi mwy o staff. Fe'n hysbyswyd bod y gwasanaeth yn ceisio cyflogi saith aelod o staff ar hyn o bryd. Ni chyflwynwyd hysbysiad o ddiffyg cydymffurfio yn ystod yr arolygiad hwn gan na welsom unrhyw dystiolaeth bod gofal a chymorth pobl wedi cael eu heffeithio'n sylweddol neu'n negyddol. Mae AGC yn argymhell yn gryf bod lefelau staffio yn cael eu cynyddu i sicrhau bod pobl sy'n byw yn y cartref yn derbyn lefel gyson o oruchwyliaeth, cefnogaeth a chymorth. Arweinir y gwasanaeth yn dda gan dîm rheoli ymroddgar ond nid yw pobl yn elwa'n gyson o'r niferoedd a nodwyd ac sy'n ofynnol o staff ar ddyletswydd.

Mae'r person cofrestredig yn cyfrannu at y broses ansawdd gofal ond mae angen gwelliannau. Edrychwyd ar ddatganiad o ddiben wedi'i ddiweddarau'r gwasanaeth a oedd yn nodi ei egwyddorion a'i ddisgwiliadau o ran y gofal a'r cymorth y mae'n eu darparu. Edrychwyd hefyd ar weithdrefnau monitro ansawdd y gwasanaeth o ran ansawdd gofal a gwelsom fod ganddo brosesau perthnasol ar waith. Roedd hyn yn cynnwys archwiliadau'n cael eu cynnal gan reolwr busnes y gwasanaeth bob tri mis. Gwelsom dystiolaeth ysgrifenedig bod meysydd i'w gwella wedi cael eu nodi a sut yr oedd y gwasanaeth yn bwriadu mynd i'r afael â nhw. Roedd pob aelod o staff yn gwybod pwy oedd rheolwr busnes y gwasanaeth a beth oedd ei swyddogaeth. Serch hyn, gwelsom nad oedd y gwasanaeth wedi cwblhau ei adroddiad ansawdd gofal blynyddol. Trafodwyd hyn gyda'r rheolwr cofrestredig a rheolwr busnes y gwasanaeth. Fe'n hysbyswyd ganddynt fod y broses wedi cael ei gohirio oherwydd y flaenoriaeth a roddwyd i'r amgylchedd a datblygu'r gwasanaeth. Serch hyn, gwelsom fod y gwasanaeth wrthi'n anfon holiaduron allan at bobl sy'n byw yn y cartref yn ogystal â'u teuluoedd/cynrychiolwyr, yr aelodau staff a gwasanaethau comisiynu yn rhan o'u gweithdrefn ansawdd gofal. Ni welsom unrhyw dystiolaeth bod absenoldeb adroddiad ansawdd gofal wedi effeithio'n negyddol ar lesiant pobl sy'n byw yn y cartref.

Dywedodd saith o bobl sy'n byw yn y cartref wrthym eu bod yn hapus gyda'r gofal a oedd yn cael ei ddarparu a dywedodd pob aelod o staff wrthym eu bod yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi gan y tîm rheoli. Gwelsom fod newidiadau cadarnhaol a pharhaus yn cael eu gwneud i'r amgylchedd a bod y gwasanaeth yn ceisio cynyddu lefelau staffio. Gwelsom fod cyfarfodydd proffesiynol rheolaidd gyda gwasanaethau comisiynu yn cael eu cynnal hefyd. Ystyriwyd bod cwblhau adroddiad ansawdd gofal yn faes i'w wella ac mae AGC wedi gofyn am gopi ar ôl iddo gael ei gwblhau. Mae'r broses ansawdd gofal wedi ei chynnwys yn y gwaith cynllunio gweithredol ond mae angen cwblhau adroddiad a'i wneud ar gael i'w ddarllen.

## **5. Gwelliannau mae angen eu gwneud ac a argymhellir yn dilyn yr arolygiad hwn**

### **5.1 Meysydd o ddiffyg cydymffurfio a nodwyd gan arolygiadau blaenorol**

Dim.

### **5.2 Argymhellion ar gyfer gwella**

Mae'r canlynol yn feysydd i'w gwella a argymhellir i hybu canlyniadau cadarnhaol pellach i bobl:

- Mae angen adolygu cynlluniau gofal ac asesiadau risg yn gyson er mwyn adlewyrchu anghenion iechyd a lles newidiol pobl sy'n byw yn y cartref.
- Byddai creu archwiliad cwmpïadau yn dangos sut y mae'r gwasanaeth yn mesur ac yn dadansoddi cwmpïadau a sut y mae'n ceisio sicrhau cyn lleied o ddiryddiadau â phosibl.
- Mae angen dull cyson o ran rhoi meddyginiaeth yn ddiogel. Mae angen i'r aelodau staff fod yn hyderus bod pobl sy'n byw yn y cartref wedi cymryd eu meddyginiaeth cyn llofnodi cofnodion yn y Cofnod Rhoi Meddyginiaeth (MAR). Mae angen cofnodi llofnodion dwbl yn gyson mewn MAR hefyd pan fod aelodau staff yn cofnodi meddyginiaeth â llaw.
- Gorchuddio rheiddiaduron i sicrhau bod y perygl posibl o niwed i bobl pe baent yn dod i gysylltiad â rheiddiaduron poeth neu heb eu gorchuddio cyn lleied â phosibl.
- Mae angen cynnal lefelau staffio ar lefel gyson bob amser ac mae angen ystyried anghenion gofal pobl o ran nifer y bobl sy'n byw yn y cartref.
- Mae angen cwblhau adroddiad ansawdd gofal yn flynyddol. Dylid gwneud copi o'r adroddiad ar gael pan ofynnir amdano gan bobl sy'n byw yn y cartref, eu teuluoedd/cynrychiolwyr, yr aelodau staff, yr awdurdod lleol sydd wedi trefnu llety unigolyn yn y cartref gofal a'r Cynulliad Cenedlaethol. Dylid anfon copi o'r adroddiad i AGC ar ôl iddo gael ei gwblhau.

## 6. Sut y gwnaethom gynnal yr arolygiad hwn

Cynhaliwyd arolygiad sylfaenol dirybudd gennym ni, Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC) yn y cartref ar 21 Mehefin 2018 rhwng 09:45 am a 18:15 pm ac ar 22 Mehefin 2018 rhwng 09:30 am a 13:15 pm. Defnyddiwyd y dulliau canlynol:

- Cawsom sgysiau gyda saith o bobl a oedd yn byw yn y cartref, y rheolwr cofrestredig, chwech o weithwyr gofal ar ddyletswydd, cogydd a dau o weithwyr gofal iechyd proffesiynol a oedd yn ymweld. Cawsom sgwrs gyda rheolwr busnes y gwasanaeth dros y ffôn.
- Defnyddiwyd y Fframwaith Arsylwi Cryno ar Gyfer Arolygu (SOFI2) gennym yn ystod ein hymweliad cyntaf. Mae'r dull SOFI 2 yn galluogi arolygwyr i arsylwi a chofnodi gofal i'n helpu i ddeall profiad pobl nad ydynt yn gallu cyfathrebu â ni.
- Edrychwyd ar fannau cymunedol, ystafelloedd gwely, y gegin, ystafelloedd ymolchi, yr ystafell golchi dillad, toiledau a'r man awyr agored.
- Edrychwyd ar amrywiaeth o gofnodion. Canolbwyntiwyd ar gofnodion gofal tri o bobl, tair ffeil staff, datganiad o ddiben, rotas staff, cofnodion meddyginiaeth, hyfforddiant staff, goruchwyliaeth staff a gwahanol ddogfennau yn ymwneud ag iechyd a diogelwch.
- Anfonwyd cyfanswm o ddeuddeg o holiaduron at bobl a oedd yn byw yn y cartref (x3), teulu/cynrychiolwyr (x3), aelodau staff (x3) a gwasanaethau proffesiynol (x3) ac ni ddychwelwyd yr un ohonynt cyn cwblhau'r adroddiad hwn.
- Cafwyd gwybodaeth ychwanegol o adroddiad arolygu blaenorol AGC hefyd.
- Gwybodaeth a gedwir gan AGC am y gwasanaeth, gan gynnwys hysbysiadau a phryderon.

Ceir gwybodaeth bellach am yr hyn yr ydym yn ei wneud ar ein gwefan:

[www.arolygiaethgofal.cymru](http://www.arolygiaethgofal.cymru)



## Ynglŷn â'r gwasanaeth

Y math o ofal a ddarperir	Cartref Gofal i Oedolion - Hŷn
Person Cofrestredig	Cyngor Sir Ynys Môn
Rheolwr/wyr Cofrestredig	Rona Humphreys
Uchafswm y lleoedd a gofrestrwyd	28
Dyddiad arolygiad blaenorol Arolygiaeth Gofal Cymru	20/03/17
Dyddiadau'r ymweliad(au) arolygu hwn/hyn	21/06/2018 a 22/06/18
Iaith weithredol y gwasanaeth	Cymraeg a Saesneg.
Ydy'r gwasanaeth hwn yn darparu cynnig gweithredol y Gymraeg?	Ydy. Mae hwn yn wasanaeth sy'n gwneud 'Cynnig Gweithredol' y Gymraeg. Mae'n darparu gwasanaeth sy'n rhagweld, yn nodi ac yn diwallu anghenion iaith a diwylliant Cymru pobl sy'n defnyddio, neu a allai ddefnyddio'r gwasanaeth.
Gwybodaeth Ychwanegol:	